# Y Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref: Cyflwyniad

Mae hwn yn **ganllaw cyflym** i helpu eich cyngor i ddechrau defnyddio'r Y Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref.

## Beth yw'r pecyn cymorth a pham y dylai eich cyngor ei ddefnyddio

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys themâu sy'n ymdrin â meysydd allweddol o weithgarwch cynghorau cymuned a thref.

Mae'n cynnwys dwy ran:-

**Rhan 1 – Y prawf iechyd** – Rhestr wirio i brofi a oes trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol sylfaenol ar waith.

**Rhan 2 – Yr hunanasesiad** – Offeryn i'ch helpu i fyfyrio'n fanylach ar sut mae'r cyngor yn gwasanaethu'r gymuned.

Bydd defnyddio'r pecyn cymorth yn helpu eich cyngor i gadw ar ben eich cyfrifoldebau statudol a myfyrio ar sut yr ydych yn gweithio i'ch cymuned. Bydd y pecyn cymorth yn helpu'r cyngor i fodloni cyfrifoldebau statudol megis adroddiadau blynyddol ac archwiliadau.

## Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth

Mater i'ch cyngor yw penderfynu sut y byddwch yn defnyddio'r pecyn cymorth. Er enghraifft:

- Efallai y byddwch yn penderfynu cwblhau'r pecyn cymorth gyfan mewn ***ymarfer unigol***.
- Efallai y byddwch yn penderfynu gweithio drwy ***Ran 1 - Y prawf iechyd yn gyntaf***, ac yna gweithio drwy'r holl themâu yn Rhan 2 – Yr hunanasesiad.
- Efallai y byddwch yn penderfynu canolbwyntio ar ***thema*** yn y prawf iechyd, ac yna canolbwyntio ***ar yr un thema*** yn yr hunanasesiad.
- Efallai y byddwch yn penderfynu canolbwyntio ar y themâu mewn ***trefn wahanol*** i'r hyn sydd yn y pecyn cymorth, gan ddibynnu ar ble rydych am flaenoriaethu sylw.

## Cwblhau Rhan 1 – Y prawf iechyd

Mae hyn yn bennaf i'r clerc ei gwblhau, gan weithio gyda'r Cadeirydd neu grŵp bach o aelodau fel y bo'n briodol.

- Dewiswch thema
- Ar gyfer pob datganiad, nodwch 'Ydy' neu 'Nac ydy' fel y bo'n briodol ar gyfer eich cyngor
- Mae datganiadau sydd wedi'u lliwio'n las yn gyfrifoldebau statudol

- Cofnodwch unrhyw sylwadau / camau gweithredu angenrheidiol fel y bo’n briodol ochr yn ochr â phob datganiad
- Rhowch grynodeb o’r camau gweithredu ar ddiwedd y thema

## Cwblhau Rhan 2 – Yr hunanasesiad

Mae hyn i’r cynghorwyr ei gwblhau, gyda chefnogaeth y clerc yn ôl yr angen. Gallwch sefydlu gweithgor(au) i ystyried thema(u) ar gyfer adrodd yn ôl i’r cyngor llawn yn ddiweddarach.

- Dewiswch thema
- Cynghorwyr yn myfyrio ar ddatganiadau’n unigol yn y thema a ddewiswyd
- Cynghorwyr yn cyfarfod i drafod y datganiadau, dan arweiniad ‘cwestiynau i’w hystyried’ o dan y datganiad
- Penderfynwch a ddylai’r cyngor gymryd camau i wella o dan y thema honno
- Rhowch grynodeb o’r drafodaeth a chofnodwch y camau gweithredu

## Beth yw’r camau nesaf?

- Cytuno ar flaenoriaethau i’w gweithredu, yna gweithredu ar y blaenoriaethau hynny
- Defnyddiwch y pecyn cymorth eto yn ddiweddarach i wirio cynnydd